Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Capital Quarter/1 Cwr y Ddinas
Tyndall Street/Stryd Tyndall
Cardiff/Caerdydd
CF10 4BQ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Jon Haswell
Cyfarwyddwr Adnoddau
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

**Cyfeirnod:** AGW513/sd
**Dyddiad:** 12 Tachwedd 2025

Annwyl Jon

**Cyngor Sir Penfro**
**Harbwr Cwm Abergwaun a Dinbych-y-pysgod**
**Cydbwyllgor Partneriaeth**
**Archwiliad Cyfrifon 2024-2025**
**Hysbysiad o Ayiti Dyddiad ar gyfer Gweithredu Hawliau'r Cyhoedd**

Rhoddir hysbysiad fy mod i wedi apwyntio 2 Chwefror 2026 am 10.00 yb fel y dyddiad, neu ar ôl y dyddiad hwn, y gall etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy, weithredu eu hawl yn ôl adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â, neu wneud gwrthwynebiad i gyfrifon y flwyddyn a bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025.

A fyddech cystal â chydnabod yn ysgrifenedig i chi dderbyn yr hysbysiad yma.

Mae adrannau 29 a 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ac fel a bennwyd ymhellach yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2014) yn ei gwneud yn ofynnol fod y cyfrifon a dogfennau penodol eraill ar gael er mwyn i'r cyhoedd gael eu harolygu. Mae'r cyfnod ar gyfer arolygu cyhoeddus yn 20 diwrnod gwaith llawn cyn y dyddiad a apwyntiwyd yn ôl yr hysbysiad yma, a dylid rhoi 14 diwrnod o rybudd o ddechreuad y cyfnod arolygu cyhoeddus.

Yn dilyn diwygiadau 2018 i Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2014, rhaid arddangos rhybudd ar wefan yr awdurdod ac mewn o leiaf un lle amlwg yn ei ardal. Dylwn fod yn ddiolchgar pe baech yn anfon mewngof i mi i'r dudalen we sy'n dangos yr hysbysiad a chadarnhad o'r lleoliad (au) lle mae'r hysbysiad yn cael ei arddangos.

Yn gywir

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru